Mae gan ddaliwr y cerdyn hwn awtistiaeth (sy'n cynnwys syndrome Asperger)

Dosbarthir y cerdyn hwn gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Mae'n dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan rydych yn cyfarfod â pherson ag awtistiaeth.

Anabledd yw awtistiaeth sy'n amharu ar sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu.

Gall ymddygiad pobl ag awtistiaeth fod yn gyfnewidiol gan eu bod yn cael anhawster deall sefyllfaoedd ac iaith gymdeithasol.

Gallwch helpu drwy ddangos goddefgarwch a dealltwriaeth.

Mae person ag awtistiaeth yn cael anhawster gyda rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu a defnyddio dychymyg, ac fe all arddangos rhai o'r nodweddion hyn:

Rhyngweithio cymdeithasol

- Ymddangos yn ynysig ac yn ddi-hid am eraill.
- Ddim yn darllen iaith y corff nac yn deall yr angen am ddoethineb.
- Ymddwyn yn anaddas neu'n rhyfedd.
- Osgoi cyswllt llygaid pan yw'n bryderus neu dan bwysau.
- Ddim yn hoff o gyswllt corfforol.

Cyfathrebu

- Efallai nad yw'n deall goslef llais, ystum neu fynegiant fel gwgu neu wenu.
- Cymryd cyffelybiaeth a throsiad yn llythrennol (felly'n meddwl fod a wnelo 'bwrw hen wragedd a ffyn' â hen wragedd).
- Cael anhawster i gynnal sgwrs.
- Efallai'n ymddangos yn ddadleugar, ystyfnig neu'n ddig...
- ...neu'n or-ufudd ac yn cytuno ag unrhyw beth, gwir neu anwir.
- Efallai'n defnyddio iaith ffurfiol, annaturiol neu phedantig.
- Efallai'n ymddangos yn bell neu'n ddiymateb.
- Gallu siarad mor blaen nes ymddangos yn anghwrtais

Dychymyg

- Ddim yn medru rhagweld canlyniadau gweithred.
- Pryderus iawn am newidiadau i'r arferol neu ddigwyddiadau annisgwyl.
- Hoff o reolau penodol, ac efallai'n gorymateb pan fydd pobl yn eu torri.
- Diddordebau arbennig yn medru troi'n obsesiwn
- Cael anhawster gweld neu ddychmygu safbwynt person arall

Beth i'w wneud os tybiwch fod gan berson awtistiaeth

Mae pobl ag awtistiaeth yn medru siarad yn eglur a phriodol ond heb ddealltwriaeth lawn. Gallent ymddangos yn annibynnol a chuddio eu hunigedd a'u hanabledd cymdeithasol.

Pan yn siarad â pherson ag awtistiaeth

- esboniwch beth rydych yn mynd i'w wneud a gwnewch yn siwr ei fod yn deall.
- defnyddiwch iaith syml, clir gyda brawddegau byrion.
- gofynnwch gwestiynau penodol, eglur.
- peidiwch â defnyddio eironi, coegni neu drosiad.
- rhowch amser ychwanegol i'r person feddwl am neu ymateb i'r hyn a ddwedoch.
- cofiwch os yw ef neu hi'n osgoi cyswllt llygaid, nid yw hyn yn arwydd o euogrwydd neu amharchusrwydd.

Nodiadau pwysig i weithwyr proffesyniol y gyfraith neu gyfiawnder troseddol

Mae person ag awtistiaeth yn agored i niwed, un ai fel dioddefwr, tyst neu rywun dan amheuaeth. O ganlyniad i'w hanawsterau cyfathrebu a rhyngweithio a'u diffyg dychymyg maen nhw dan anfantais a gellir cam-ddehongli eu gweithredoedd a'u hymddygiad. Dylid galw ar Oedolyn Priodol i ofalu am eu lles.

Mae **Awtistiaeth** a **Syndrom Asperger** yn cael eu hadnabod fel anhwylderau iechyd meddwl ac ymddygiad yn ôl **Dosbarthiad Rhyngwladol Afiechydon Sefydliad Iechyd y Byd, ICD10.** Felly gall **Deddf Iechyd Meddwl 1983** fod yn berthnasol. Os ydych yn meddwl fod gan eich carcharor/ cleient/ diffynnydd awtistiaeth, gall adroddiad gan wasanaeth seiciatrig arbenigol sy'n delio ag awtistiaeth neu syndrom Asperger fod o fudd a sicrhau cyfiawnder.

Mae gan **Llinell Gymorth Awtistiaeth,** 0845 070 4004 (agored Dydd Llun-Dydd Gwener 10am-4pm), restr o arbenigwyr sy'n gweithio yn y maes hwn. Gallwch hefyd ymweld â gwefan Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth a chyrchu'r adran ar weithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol – **www.autism.org.uk/cjp**

Am fwy o wybodaeth

Cysylltwch â **Llinell Gymorth Awtistiaeth,** 0845 070 4004 (agored Dydd Llun-Dydd Gwener 10am-4pm)

www.autism.org.uk

Am fwy o wybodaeth am y cerdyn hwn, yn cynnwys fersiynau mewn ieithoedd eraill, gweler **www.autism.org.uk/card**

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth

© Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth 2005

Ni ellir atgynhyrchu heb ganiatâd

The National Autistic Society, 393 City Road, London, EC1V 1NG

Elusen gofrestredig rhif. 269425